# DOGFEN YMGYNGHORI

## Cynnig i aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

## Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol a gynhelir newydd a fydd yn gweithredu ar y ddau o safleoedd presennol nes bydd adeilad newydd wedi'i gymeradwyo a'i adeiladu.






**Cyfnod Ymgynghori:**

**Dydd Mawrth Mehefin 3ydd i Ddydd Gwener Gorffennaf 18fed 2025**

**Cynnig i aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**

**Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol a gynhelir newydd a fydd yn gweithredu ar y ddau o safleoedd presennol nes bydd adeilad newydd wedi'i gymeradwyo a'i adeiladu.**

| **A. GOROLWG** | **Tudalen** |
|---|---|
| A1. Rhagarweiniad | 5 |
| A2. Gorolwg ar y Cynnig | 5 |
| A3. Gofynion ymgynghori | 6 |
| A4. Gyda phwy fyddwn yn ymgynghori? | 6 |
| A5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad | 8 |
| A6. Manylion Cyswllt | 9 |
| A7. Beth fydd yn digwydd nesaf? | 9 |

| **RHAN B – YR ACHOS O BLAID NEWID** | **Tudalen** |
|---|---|
| B1. Cefndir y cynnig | 11 |
| B2. Y Sefyllfa Bresennol | 11 |
| B3. Map o Leoliad Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood | 15 |
| B4. Gwybodaeth Ddemograffig | 15 |
| B5. Amcanestyniadau o Niferoedd Disgyblion | 18 |
| B6. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg | 20 |

| **RHAN C - Y CYNNIG** | **Tudalen** |
|---|---|
| C1. Beth sy'n cael ei gynnig? | 21 |
| C2. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu? | 21 |
| C3. Pa bryd gaiff y cynnig ei roi ar waith? | 21 |
| C4. Cost y cynnig | 21 |
| C5. Dewisiadau a Ystyriwyd | 22 |

| **RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG** | **Tudalen** |
|---|---|
| D1. Effaith ar yr Amgylchedd Lleol | 25 |
| D2. Effaith ar Dderbyniadau | 25 |
| D3. Effaith ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol | 25 |
| D4. Effaith ar Drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd | 25 |
| D5. Effaith ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 26 |

D6. Effaith ar Drefniadau Llywodraethu 26
D7. Effaith ar Staffio 27

| RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG | Tudalen |
|---|---|

D8. Effaith ar Ysgolion Eraill 26
D9. Risgiau'r Prosiect 26
D10. Asesiad o Effaith Integredig 27
D11. Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg 27
D12. Effaith ar yr Adeiladau 27
D13. Trefniadau yn y Cyfamser 27

Mae copïau caled o'r ddogfen ymgynghori hefyd ar gael ac os bydd arnoch angen copi ar bapur neu ar ffurf fformat gwahanol fel Braille neu brint bras, neu os oes arnoch angen cymorth i ddehongli'r ddogfen mewn iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704018/ 01352 704014 neu e-bostiwch saltneyonsultations@siryfflint.gov.uk

## Ymgynghoriad ynghylch aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

## Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol a gynhelir newydd a fydd yn gweithredu ar y ddau o safleoedd presennol nes bydd adeilad newydd wedi'i gymeradwyo a'i adeiladu.

# A. GOROLWG

### A1. Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi cyfle i fudd-ddeiliaid ac eraill â diddordeb ddysgu am y newidiadau arfaethedig a gwneud sylwadau ynglŷn â'r cynnig i aildrefnu'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Mae'r ddogfen hon yn fodd i Gyngor Sir y Fflint (y Cyngor) gyflawni ei gyfrifoldebau dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ymgynghori â budd-ddeiliaid perthnasol wrth ystyried gwneud unrhyw ad-drefnu sylweddol mewn ysgol.

Ar sail canllawiau rheoleiddio Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, dymuna'r Cyngor ymgynghori â budd-ddeiliaid ynglŷn ag aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, a fyddai'n golygu cau'r naill ysgol a'r llall ac agor ysgol gynradd gyfunol newydd ar safleoedd presennol y ddwy ysgol i ddechrau, nes caiff yr ysgol newydd ei chymeradwyo a'i hadeiladu.

Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle ichi ofyn cwestiynau, gwneud sylwadau a rhannu eich safbwyntiau ar y cynigion a gyflwynir. Adolygir eich cyfraniad i'r ymgynghoriad hwn yn fanwl wrth i'r Cyngor benderfynu a ddylid gweithredu'r hyn a gynigir.

Mae'r ddogfen yn cynnwys y wybodaeth y dylai budd-ddeiliaid ei hystyried i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn llawn.

### A2. Gorolwg ar y Cynnig

Mae'r Cyngor yn ceisio eich barn ynglŷn â chynnig i aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni'r ad-drefniant fel hyn:

- Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood
- Agor ysgol gynradd gyfunol ar y ddau safle presennol i ddechrau, nes caiff adeilad newydd ei gymeradwyo a'i godi
- Agor Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg newydd â lle i 315 o ddisgyblion ar dir Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

I gyflawni'r newidiadau hyn, mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac yn amodol ar sicrhau'r gymeradwyaeth angenrheidiol, yn bwriadu buddsoddi £12.5 miliwn mewn ysgol newydd.

*Nodyn i ddarllenwyr: cyflwynir y cynnig hwn ar yr un pryd â chynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony.*

## A3. Gofynion Ymgynghori

Mae’r ddogfen hon yn fodd i Gyngor Sir y Fflint (y Cyngor) gyflawni ei gyfrifoldebau dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ymgynghori â budd-ddeiliaid perthnasol wrth ystyried unrhyw ad-drefnu arwyddocaol mewn ysgol.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn disgrifio nifer o addasiadau mewn ysgolion a gynhelir sy’n destun rheoleiddio, a rhaid peidio â’u cyflawni heb fod yr awdurdod lleol perthnasol a/neu’r corff llywodraethu wedi cyflawni gofynion y Cod.

Mae angen dilyn gweithdrefnau statudol fel arfer er mwyn gwneud newidiadau sylweddol mewn ysgolion. Lluniwyd y gweithdrefnau fel bod modd gwneud newidiadau os bernir eu bod yn angenrheidiol, ond mewn ffordd sy’n diogelu buddiannau dysgwyr ac sy’n galluogi pobl â diddordeb i gael cyfle i leisio’u barn; mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi’r gweithdrefnau hyn yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (“*y Cod*”).

Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn para 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 o’r rheiny yn ddiwrnodau ysgol. Bydd cyfleoedd i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu gweithredu’r cynnig neu beidio.

Mae’r safonau a gytunwyd ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru yn dyfynnu Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, “Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd pan oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, ac i gael sylw i’w barn.”

Mae barn plant a phobl ifanc yn arbennig o bwysig i’r Cyngor ac felly bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y broses ymgynghori. Mae’r Cyngor wedi llunio fersiwn gryno o’r ddogfen hon a fydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sy’n cael eu heffeithio gan y cynnig hwn.

## A4. Gyda phwy fyddwn yn ymgynghori?

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng **Dydd Mawrth Mehefin 3ydd 2025** i **Ddydd Gwener Gorffennaf 18fed 2025**. Mae’n rhaid cynnal yr ymgynghoriad am o leiaf 42 o ddiwrnodau ac mae’n rhaid bod o leiaf 20 o’r rheiny’n ddiwrnodau ysgol.

Anfonwyd y ddogfen ymgynghori ffurfiol hon at amrywiaeth helaeth o ymgyngoreion, gan gynnwys:

| Gofyniad o dan God Trefniadaeth 011/2018 | Fe’i dosberthir i’r canlynol |
|---|---|
| Cymuned yr ysgol | Pennaeth, athrawon, staff a chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.<br><br>Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood<br><br>Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid (a lle bo modd, darpar rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid) disgyblion sy’n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.<br><br>Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood |

| | |
|---|---|
| Yr awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni | Cyngor Sir y Fflint sy'n cyflwyno'r cynnig |
| Unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arno – gan gynnwys darpariaeth benodol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol y mae unrhyw awdurdod yn lleoli disgyblion â datganiad ynddi neu'n debygol o wneud | Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer |
| Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer ardal unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni | Esgobaeth Wrecsam<br>Esgobaeth Llanelwy |
| Unrhyw gorff crefyddol arall sy'n briodol ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni | |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion a ddadleolir | Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd St David's, Saltney<br>Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony, Saltney |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt | Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Brychdyn<br>Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Sirol Lache |
| Gweinidogion Cymru | |
| Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud | Jack Sargeant AS<br>Mark Tami AS |
| Estyn | Prif Arolygydd ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Undebau athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli'r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion | Cynrychiolwyr NASUWT, NEU, UCAC, ASCL UNSAIN |
| Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol | |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud | Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru |
| Unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud | Cyngor Tref Saltney |
| Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol) | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol y mae'n bosibl yr effeithid arnynt | Saltney Small Steps<br>Woody Wraparound<br>Clwb Hapus |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a / neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant os ydynt yn bodoli | Mudiad Meithrin<br>Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd<br>PACEY<br>Menter Iaith |

| | |
|---|---|
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol sydd â buddiant | SNAP Cymru |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno | |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg | |
| Eraill | Holl Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint<br>Y gymuned ehangach yn Saltney |

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar wefan Cyngor Sir y Fflint ac fe'i gwelir drwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx

## A5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae eich barn ynglŷn â'r cynnig i aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn bwysig i ni. Mae ar y Cyngor eisiau i chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a dweud wrthym ni beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig, yn enwedig os yw'n mynd i effeithio arnoch chi neu'ch plant.

Mae'r Cyngor yn awr yn cynnal prosesau ymgynghori statudol â'r holl fudd-ddeiliaid i sicrhau bod y Cyngor yn penderfynu ar sail yr holl wybodaeth berthnasol.

Dyma amserlen yr ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion statudol:

| Dechrau'r Cyfnod Ymgynghori Statudol | Diwedd y Cyfnod Ymgynghori Statudol | Cyfnod Ymgynghori |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 3 Mehefin 2025 | Dydd Gwener 18 Gorffennaf 2025 | 42 o ddiwrnodau<br>(ac o leiaf 20 o'r rheiny'n ddiwrnodau ysgol) |

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi holiadur ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan neu trwy ddilyn y ddolen hon:

Dilynwch y ddolen hon

Sganiwch y Cod QR hwn

Mae copi o’r holiadur ar ddu a gwyn yng nghefn y ddogfen hon.  Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig trwy ddefnyddio’r manylion cyswllt dros y tudalen.

Gellir gofyn am fersiynau o’r ddogfen ar ffurf print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill drwy ddefnyddio’r manylion cyswllt isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwch yn cael ymateb yn yr un iaith.  Ni fydd y defnydd o’r naill iaith yn arwain at oedi.

Er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, lluniwyd fersiwn o’r ddogfen sy’n addas i’w hoedran a lefel debygol eu dealltwriaeth. Mae’n cyflwyno’r wybodaeth mewn ffordd gyfeillgar sy’n galluogi plant a phobl ifanc i ddod i benderfyniad gwybodus. Mae’r ddogfen i’w chael yma:

Rhaid derbyn yr holl ymatebion erbyn hanner nos ar hanner nos **Gwener Gorffennaf 18fed**.

Nid yw’r Cyngor yn bwriadu cynnal unrhyw ddigwyddiadau galw heibio i’r cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad hwn.   Yn lle hynny, gellir anfon cwestiynau trwy e-bost i saltneyconsultations@siryfflint.gov.uk a bydd Swyddogion y Cyngor yn ceisio ymateb i gwestiynau ynglŷn â’r broses cyn pen saith o ddiwrnodau gwaith.

Trefnwyd digwyddiadau ar gyfer staff a llywodraethwyr yn yr ysgolion dan sylw.

## A6. Manylion cyswllt

Dylid anfon bob ymateb i’r cyfeiriad canlynol:

Tîm Moderneiddio Ysgolion
Cyngor Sir y Fflint
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo
Sir y Fflint
CH5 3XT

E-bost: saltneyconsultations@siryfflint.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 704018 neu 01352 704014

Bydd blwch post ar gael wrth y dderbynfa yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood i bobl adael ymatebion.

## A7. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Wedi i’r cyfnod ymgynghori ddod i ben, llunnir Adroddiad Ymgynghori i grynhoi’r ymatebion a dderbyniwyd. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a yw’n dymuno bwrw ymlaen â’r dewis a ffefrir yn y ddogfen ymgynghori. ***Dylid nodi na chaiff ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi fel gwrthwynebiadau i’r cynnig.***

Os Cabinet y Cyngor yn rhoi sêl bendith ar y rhan gyntaf o'r broses, cyhoeddir **Hysbysiad Statudol** a bydd gan bobl 28 o ddiwrnodau i gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol yn ysgrifenedig. I gyfrif fel gwrthwynebiadau Statudol, **rhaid** iddynt fod wedi'u gwneud yn ysgrifenedig a'u hanfon drwy'r post neu e-bost i'r cyfeiriadau uchod cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Wedi i gyfnod yr Hysbysiad Statudol ddod i ben, byddai angen i Gabinet y Cyngor ystyried adroddiad arall o'r enw'r **Adroddiad Gwrthwynebiadau**, a fyddai'n crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd a'r materion a godwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt. Ar sail hynny, bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig neu beidio. Bydd yr adroddiad hefyd ar gael i bawb ei ddarllen ar wefan y Cyngor a gellir gwneud cais am gopi caled.

Bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu cymeradwyo'r cynnig neu beidio ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebiadau.

Ar ôl y penderfyniad, anfonir copi electronig o'r **Hysbysiad o Benderfyniad** at yr holl fudd-ddeiliaid a nodir yn y rhestr ohebu cyn pen saith o ddiwrnodau wedi'r penderfyniad.

Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer penderfynu wedi'r drefn ymgynghori ffurfiol:

| **Camau o'r Broses** | **Dyddiadau Allweddol** |
|---|---|
| Y Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion | Medi 2025/Hydref 2025 |
| Y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol a chychwyn cyfnod gwrthwynebu | Medi/Hydref 2025 |
| Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu a phenderfynu a ddylid gweithredu'r cynigion neu beidio | Ionawr 2026/Chwefror 2026 |
| Cyhoeddi llythyr i hysbysu o benderfyniad y Cabinet | Ionawr 2026/Chwefror 2026 |

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori'n cyflwyno'r sail resymegol ar gyfer y newidiadau a gynigir wrth aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.  Dymunwn ichi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen hon a lleisio'ch barn o blaid neu yn erbyn y cynigion.

## RHAN B – YR ACHOS O BLAID NEWID

B1. Cefndir y Cynnig

Mae'r cynnig hwn i foderneiddio ysgolion yn hanfodol gan fod yn rhaid i'r awdurdod lleol:

- Sicrhau darpariaeth addysg raenus a chynaliadwy
- Gwella adeiladau a chyfleusterau ysgolion
- Darparu'r nifer iawn o leoedd mewn ysgolion, o'r math iawn, yn y mannau iawn
- Mynd i'r afael ag adeiladau ysgol ac isadeiledd anghynaladwy
- Cydnabod y bydd peidio â gweithredu'n creu cymarebau uwch rhwng athrawon a disgyblion wrth i gyllid leihau
- Manteisio i'r eithaf ar gyllid allanol drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cyflawni'r hyn a gynigir i aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, mae'r Cyngor yn ceisio eich barn ynglŷn â'r cynnig.

Mae'r Cyngor yn bwriadu aildrefnu'r ysgol drwy:

- Gau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood
- Agor ysgol gynradd gyfunol ar y ddau safle presennol i ddechrau, nes caiff adeilad newydd ei gymeradwyo a'i godi
- Agor Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg newydd â lle i 315 o ddisgyblion ar dir Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

B2. Y Sefyllfa Bresennol

**Ysgol Gynradd Saltney Ferry**

<table>
<tr><td colspan="2">Lleoliad yr Ysgol</td><td colspan="2">Saltney Ferry Road, Saltney Ferry, Caer, CH4 0BN</td></tr>
<tr><td colspan="2">Oedrannau</td><td colspan="2">3-11</td></tr>
<tr><td colspan="2">Categori Ysgol</td><td colspan="2">Ysgol gymunedol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Categori Iaith</td><td colspan="2">Cyfrwng Saesneg</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td><td>Derbyn – Blwyddyn 6</td><td>Meithrin</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nifer y dysgwyr ar y gofrestr ym mis Medi 2024</td><td>116</td><td>18</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol</td><td>Medi 2023</td><td>117</td><td>19</td></tr>
<tr><td>Medi 2022</td><td>117</td><td>19</td></tr>
<tr><td>Medi 2021</td><td>110</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Medi 2020</td><td>101</td><td>26</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoedd ar gael** | | 236 | 33 |
| **Lleoedd Gwag** | | -120 | |
| **Amcanestyniadau o Niferoedd Disgyblion** | **Medi 2025** | 120 | 19 |
| | **Medi 2026** | 124 | 19 |
| | **Medi 2027** | 123 | 19 |
| | **Medi 2028** | 123 | 19 |
| | **Medi 2029** | 132 | 19 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Gradd B - Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad. | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Gradd B - Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond nid yw'n cefnogi'r cwricwlwm mewn rhai meysydd. Mae'r ffaith bod yr ysgol wedi'i lleoli mewn ardal breswyl yn golygu bod adegau danfon a chasglu plant yn heriol, gan nad oes digon o leoedd i rieni/gofalwyr barcio a throi eu cerbydau. | | |
| **Cost i Ddatrys Problemau Cyflwr** | £227,498.07 | | |
| **Cyllid** | Refeniw a ddyrannwyd 25/26 = £676,642<br>Cyllideb Costau'r Ysgol Fesul Disgybl 25/26 = £5,413<br>Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl cynradd yn Sir y Fflint yw £5,667. | | |

**Effaith Carbon**

Mae Tystysgrif Ynni Ysgol Gynradd Saltney Ferry'n rhoi sgôr C ar gyfer perfformiad ynni gweithredol. Mae'r ysgol yn defnyddio system wresogi nwy naturiol. Yn 2023-24, defnyddiodd yr ysgol 33,251 o gilowat-oriau o drydan a 11,5920 o gilowat-oriau o nwy. Creodd hynny 34,396 cilogram o allyriadau carbon deuocsid i'r amgylchedd. Byddai adeilad newydd sy'n cyflawni'r safon Gweithredu'n Ddi-garbon Net yn dileu'r allyriadau hynny o ôl troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.

Prin fyddai'r effaith ar allyriadau teithio gan fod yr ysgolion mor agos at ei gilydd.

**Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | Boundary Lane, Saltney, CH4 8LN |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Oedrannau** | | 3-11 | |
| **Categori Ysgol** | | Ysgol gymunedol | |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | |
| | | Derbyn – Blwyddyn 6 | Meithrin |
| **Nifer y dysgwyr ar y gofrestr ym mis Medi 2024** | | 152 | 19 |
| **Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2023** | 142 | 19 |
| | **Medi 2022** | 150 | 18 |
| | **Medi 2021** | 147 | 18 |
| | **Medi 2020** | 142 | 14 |
| **Lleoedd ar gael** | | 216 | 30 |
| **Lleoedd Gwag** | | -64 | |
| **Amcanestyniadau o Niferoedd Disgyblion** | **Medi 2025** | 148 | 22 |
| | **Medi 2026** | 156 | 22 |
| | **Medi 2027** | 152 | 21 |
| | **Medi 2028** | 150 | 22 |
| | **Medi 2029** | 151 | 22 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Gradd B – Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad. | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Gradd C – Gwael<br>Cyfyngu ar ddulliau addysgu / effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol. Mae'r ffaith bod yr ysgol wedi'i lleoli mewn ardal breswyl yn golygu bod adegau danfon a chasglu plant yn heriol, gan nad oes digon o leoedd i rieni/gofalwyr barcio a throi eu cerbydau. | | |
| **Cost i Ddatrys Problemau Cyflwr** | £97,618 | | |
| **Cyllid** | Refeniw a ddyrannwyd 25/26 = £844,147<br>Cyllideb Costau'r Ysgol Fesul Disgybl 25/26 = £5,227<br>Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl cynradd yn Sir y Fflint yw £5,667. | | |


**Effaith Carbon**

Mae Tystysgrif Ynni Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn rhoi sgôr D ar gyfer perfformiad ynni gweithredol. Mae’r ysgol yn defnyddio system wresogi nwy naturiol. Yn 2023-24, defnyddiodd yr ysgol 42,846 o gilowat-oriau o drydan a 11,7424 o gilowat-oriau o nwy. Creodd hynny 36,804 cilogram o allyriadau carbon deuocsid i’r amgylchedd. Byddai adeilad newydd sy’n cyflawni’r safon Gweithredu’n Ddi-garbon Net yn dileu’r allyriadau hynny o ôl troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.

Prin fyddai’r effaith ar allyriadau teithio gan fod yr ysgolion mor agos at ei gilydd.

*Y ffigyrau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw’r rhai mwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi a chyhoeddi.*

## B3. Map o Leoliad Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood





Mae Saltney yn dref ac ward etholiadol yn Sir y Fflint i'r dwyrain o bentref Brychdyn ac ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr nid nepell o ddinas Caer. Yng Nghyfrifiad 2021, cofnodwyd fod yno 5,140 o bobl yn preswylio yn Saltney.

## B4. Gwybodaeth Ddemograffig

### Ysgol Gynradd Saltney Ferry

Mae dadansoddiad demograffig (Medi 2024) yn dangos bod Ysgol Gynradd Saltney Ferry'n gwasanaethu ardal Saltney yn gyffredinol a bod tua 67.23% o ddisgyblion yn dewis eu hysgol gymunedol leol agosaf.


Map o Leoliadau Disgyblion sy'n Mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry




**Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**

Mae dadansoddiad demograffig (Medi 2024) yn dangos bod Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn gwasanaethu ardal Saltney yn bennaf a bod tua 80.67% o ddisgyblion yn dewis eu hysgol gymunedol leol agosaf.

Map o Leoliadau Disgyblion sy’n Mynychu Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood



**Gwerthusiad o'r Ardal**

Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint yn 2023 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2015 a 2030. Mae'r Cynllun yn pennu'r modd y bydd trefi a phentrefi Sir y Fflint yn tyfu ac yn newid, gan gynnwys nodi ble ddylai datblygiadau ddigwydd neu beidio.

Gall y CDLl gael effaith ar niferoedd disgyblion a dylanwadu ar ddyletswydd y Cyngor i ddarparu'r nifer priodol o lefydd ysgol yn y lleoliadau cywir, gan leihau costau cynnal a sicrhau cynaliadwyedd.

Mae pedair ysgol yn ward Saltney Ferry:

- Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry.
- Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony.
- Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

Yr ysgolion cynradd agosaf y tu hwnt i ardal Saltney yw:

- Ysgol Gynradd Brychdyn (3.1 milltir ar droed o Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a 2.1 milltir ar droed o Ysgol Gynradd Saltney Ferry)
- Ysgol Gynradd Gymunedol Lache, Caer, Lloegr (0.9 milltir ar droed o Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a 2 milltir ar droed o Ysgol Gynradd Saltney Ferry).

Mae hynny'n golygu mai Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yw'r ddwy o ysgolion Cymunedol ar gyfer ardal Saltney.

Nid oes unrhyw safleoedd i'w datblygu yn ardal Saltney wedi'u pennu yn y CDLl presennol. Heb ddisgyblion ychwanegol yn symud i'r ardal, mae'r nifer uchel o lefydd dros ben yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry (120 / 50.85%) yn dangos nad oes digon o alw am yr ysgol.


Mae nifer uchel y lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn awgrymu nad oes digon o alw am ddwy ysgol gynradd gymunedol yn yr ardal. Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu nifer briodol o leoedd mewn ysgolion yn y mannau iawn yn ogystal â chwtogi ar gostau gweithredu a sicrhau cynaladwyedd.

Byddai sefydlu ysgol gynradd gyfunol newydd yn Saltney yn lleihau nifer y lleoedd gwag yn ysgolion cynradd yr ardal yn fawr ac yn cynnig profiad addysgol gwell a mwy cost-effeithiol. Gweler isod y niferoedd ar gofrestri'r ysgolion ar hyn o bryd a'r hyn a ragwelir yn y dyfodol.

## B5. Amcanestyniadau o Niferoedd Disgyblion

### Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARA | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Med-19 | Med-20 | Med-21 | Med-22 | Med-23 | Med-24 | Med-25 | Med-26 | Med-27 | Med-28 | Med-29 | Tuedd 5 Mlynedd |
| Meithrin | 17 | 14 | 18 | 18 | 15 | 19 | 22 | 22 | 21 | 22 | 22 | 3 |
| Derbyn | 18 | 23 | 26 | 22 | 22 | 24 | 19 | 22 | 22 | 21 | 22 | -2 |
| Blwyddyn 1 | 21 | 14 | 25 | 26 | 22 | 21 | 24 | 19 | 22 | 22 | 21 | 0 |
| Blwyddyn 2 | 23 | 21 | 15 | 25 | 24 | 21 | 21 | 24 | 19 | 22 | 22 | 1 |
| Blwyddyn 3 | 28 | 20 | 21 | 16 | 25 | 23 | 21 | 21 | 24 | 19 | 22 | -1 |
| Blwyddyn 4 | 21 | 26 | 15 | 23 | 14 | 26 | 23 | 21 | 21 | 24 | 19 | -7 |
| Blwyddyn 5 | 18 | 20 | 25 | 14 | 22 | 14 | 26 | 23 | 21 | 21 | 24 | 10 |
| Blwyddyn 6 | 18 | 18 | 20 | 24 | 13 | 23 | 14 | 26 | 23 | 21 | 21 | -2 |
| **Cyfanswm** | **147** | **142** | **147** | **150** | **142** | **152** | **148** | **156** | **152** | **150** | **151** | **-1** |
| Uchafswm Disgyblion | 216 | 216 | 216 | 216 | 216 | 216 | 216 | 216 | 216 | 216 | 216 | 0 |
| Lleoedd Gwag | 69 | 74 | 69 | 66 | 74 | 64 | 68 | 60 | 64 | 66 | 65 | 1 |
| % Lleoedd Gwag | 31.94% | 34.26% | 31.94% | 30.56% | 34.26% | 29.63% | 31.48% | 27.78% | 29.63% | 30.56% | 30.09% | 0.46% |
| Niferoedd Derbyn | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |




**Medi 2025**

Mae Gwasanaeth Derbyniadau Ysgolion Cyngor Sir y Fflint wedi datgan, hyd at y dyddiad cyhoeddi presennol, fod 34 o geisiadau wedi dod i law am leoedd yn y dosbarth derbyn, ac mae 28 ohonynt yn ddewis cyntaf ar gyfer mis Medi 2025 yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, sy'n fwy na'r ffigur o 19 a ragwelwyd.

## Ysgol Gynradd Saltney Ferry

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDAR | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **Med-19** | **Med-20** | **Med-21** | **Med-22** | **Med-23** | **Med-24** | **Med-25** | **Med-26** | **Med-27** | **Med-28** | **Med-29** | **Tuedd 5 Mlynedd** |
| Meithrin | 18 | 26 | 10 | 19 | 19 | 18 | 19 | 19 | 19 | 19 | 19 | 1 |
| **Derbyn** | 15 | 14 | 25 | 12 | 12 | 19 | 18 | 19 | 19 | 19 | 19 | 0 |
| **Blwyddyn 1** | 18 | 14 | 16 | 23 | 23 | 19 | 19 | 18 | 19 | 19 | 19 | 0 |
| **Blwyddyn 2** | 20 | 16 | 14 | 18 | 18 | 10 | 19 | 19 | 18 | 19 | 19 | 9 |
| **Blwyddyn 3** | 20 | 17 | 16 | 14 | 14 | 19 | 10 | 19 | 19 | 18 | 19 | 0 |
| **Blwyddyn 4** | 12 | 19 | 15 | 16 | 16 | 20 | 19 | 10 | 19 | 19 | 18 | -2 |
| **Blwyddyn 5** | 11 | 11 | 20 | 15 | 15 | 15 | 20 | 19 | 10 | 19 | 19 | 4 |
| **Blwyddyn 6** | 11 | 10 | 12 | 19 | 19 | 14 | 15 | 20 | 19 | 10 | 19 | 5 |
| **Cyfanswm** | **107** | **101** | **118** | **117** | **117** | **116** | **120** | **124** | **123** | **123** | **132** | **16** |
| **Uchafswm Disgyblion** | 236 | 236 | 236 | 236 | 236 | 236 | 236 | 236 | 236 | 236 | 236 | 0 |
| **Lleoedd Gwag** | 129 | 135 | 118 | 119 | 119 | 120 | 116 | 112 | 113 | 113 | 104 | -16 |
| **% Lleoedd Gwag** | 54.66% | 57.20% | 50.00% | 50.42% | 50.42% | 50.85% | 49.15% | 47.46% | 47.88% | 47.88% | 44.07% | -6.78% |
| **Niferoedd Derbyn** | 33 | 33 | 33 | 33 | 33 | 33 | 33 | 33 | 33 | 33 | 33 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |




**Medi 2025**

Mae Gwasanaeth Derbyniadau Ysgolion Cyngor Sir y Fflint wedi cyhoeddi y neilltuwyd 14 o leoedd yn nosbarth derbyn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ym mis Medi 2025, sy’n llai na’r nifer o 18 a ragwelwyd. Yn yr un modd, neilltuwyd 13 o leoedd yn y dosbarth meithrin, sy’n llai na’r nifer o 19 a ragwelwyd. Gyda’i gilydd, mae’r ffigurau hyn yn dangos bod niferoedd yn gostwng yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry.

## B6. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg

Mae Estyn a’r Cyngor yn monitro safonau ac ansawdd yr addysg yn ysgolion Sir y Fflint. Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru . Mae’n un o gyrff y Goron a ffurfiwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar y Senedd ond yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Cwricwlwm**

Mae adroddiadau arolygon ESTYN y naill ysgol a’r llall yn cynnwys sylwadau ynglŷn â’r cwricwlwm a ddarperir:

**Ysgol Gynradd Saltney Ferry** “Mae’r ysgol wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer ei gwricwlwm sy’n cynnwys yr holl fudd-ddeiliaid. Mae’n canolbwyntio ar gyfrannu at y gymuned leol a meithrin rhinweddau’r disgyblion, fel bod yn gymdeithgar a chynhwysol. Mae’r cwricwlwm yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda ac yn herio stereoteipiau, gan gefnogi disgyblion i ddatblygu perthnasoedd iach. Mae staff yn cydweithio i greu amrywiaeth o brofiadau dysgu sy’n cwmpasu’r meysydd dysgu a phrofiad yng Nghwricwlwm Cymru yn ogystal â themâu sy’n trawstorri, fel gyrfaoedd a byd gwaith. O ganlyniad i hynny, mae’r cwricwlwm yn helpu i godi dyheadau disgyblion a’u hannof i ystyried y rhinweddau hynny y bydd arnynt eu hangen ar gyfer y dyfodol.”

**Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood** “Mae gan yr ysgol gynlluniau trylwyr i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys ac mae’r athrawon yn dechrau ystyried y cwricwlwm newydd wrth gynllunio gweithgareddau dysgu. Mae’r staff yn cynllunio cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Saesneg a Mathemateg wrth

iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r staff yn cynllunio ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i alluogi disgyblion i wneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae darpariaeth TGCh yr ysgol yn datblygu'n dda."

**Safonau**

Arolygwyd Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ddiwethaf ym mis Mawrth 2020 ac ym marn Estyn roedd safonau a phrofiadau addysgu a dysgu'n Dda.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Saltney Ferry ddiwethaf ym mis Medi 2022 a rhoes Estyn yr ysgol yn y categori Angen Gwella'n Sylweddol. Ymwelodd Estyn â'r ysgol drachefn ym mis Chwefror 2024 a chanfu fod yr ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth weithredu ei argymhellion i gael ei thynnu o'r categori hwnnw, heb fod angen sylw dilynol.

Wrth i'r staff drosglwyddo i'r ysgol gyfunol newydd, disgwylir y byddant yn dal i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu'n raenus ac yn gwneud hynny'n well drwy rannu arferion gorau.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Bydd adeiladu ysgol newydd sbon yn hybu lles y staff a'r myfyrwyr drwy ddarparu mynediad at adnoddau a chyfleusterau a fydd yn gwella'r ddarpariaeth addysg a meithrin agweddau mwy cadarnhaol at ddysgu.

Bydd budd-ddeiliaid yn cyfrannu at ddyluniad yr adeilad newydd er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â gweledigaeth yr ysgol ar gyfer y cwricwlwm a'i hethos cyffredinol, a thrwy hynny bydd yr ysgol yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf bosib ar les myfyrwyr a'u cyfranogiad wrth ddysgu.

**Profiadau addysgu a dysgu**

Bydd yr ysgol newydd yn rhoi gwell mynediad i ddisgyblion a staff at adnoddau a chyfleusterau a bydd hynny'n gwella'r profiadau addysgu a dysgu ar y cyfan. Yn ogystal â hynny, bydd yr ysgol yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol ac amrywiaeth helaethach o weithgareddau cwricwlaidd.

**Gofal, cefnogaeth ac arweiniad**

Bydd yr amgylcheddau dysgu cynhwysol a meithringar yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn trosglwyddo i'r ysgol newydd, ynghyd â'r staff addysgu yn y ddwy ysgol. Bydd y cyfleusterau gwell yn yr ysgol newydd yn darparu mwy o adnoddau ac amwynderau i fedru cefnogi'r dysgwyr yn well.

**Arwain a Rheoli**

Atgyfnerthir arweinyddiaeth yr ysgol newydd drwy rannu arferion gorau rhwng arweinwyr presennol yr ysgolion a chyfuno'r profiad sydd ganddynt. Yn ogystal â hynny, datblygir strwythurau i gynnig amrywiaeth fwy helaeth o gyfleoedd i staff a myfyrwyr. O ganlyniad i hynny, bydd myfyrwyr yn elwa ar well cyfleoedd i ddysgu ac amrywiaeth fwy helaeth o weithgareddau cwricwlaidd.

**Arolygon Estyn**

Mae'r dolenni i'r adroddiadau llawn wedi'u cynnwys isod ynghyd ag argymhellion arolygwyr ESTYN:

**Ysgol Gynradd Saltney Ferry – Medi 2022** – [Adroddiad arolygu Ysgol Gynradd Saltney Ferry 2022 (llyw.cymru) (Saesneg yn unig)]

**Argymhelliad 1** Gwella sgiliau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion

**Argymhelliad 2** Gwella Cymraeg y disgyblion a'u sgiliau digidol

**Argymhelliad 3** Sicrhau bod athrawon yn cynnal disgwyliadau uchel ac yn herio'r holl ddisgyblion i gyflawni'n gyson

**Argymhelliad 4** Rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith i arfarnu gwaith yr ysgol a mynd i'r afael yn gadarn â meysydd i'w gwella

**Argymhelliad 5** Sicrhau bod y profiadau dysgu a gynllunnir yn adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth disgyblion mewn ffordd systematig.

Cafodd Ysgol Gynradd Saltney Ferry ymweliad monitro ym mis Chwefror 2024, pan ddaeth Estyn i'r farn bod yr ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth weithredu'r argymhellion a wnaed yn sgil yr arolwg craidd ym mis Medi 2022. Nid yw'r ysgol mwyach ar y rhestr o ysgolion sydd angen gwella'n sylweddol.

**Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood – Mawrth 2020 – [Adroddiad arolygu Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood 2020 (llyw.cymru) (Saesneg yn unig)]**

**Argymhelliad 1** Codi safonau Cymraeg gydol yr ysgol

**Argymhelliad 2** Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion arfer eu sgiliau rhifedd ac ysgrifennu estynedig

gydol y cwricwlwm

Yn dilyn pob arolwg, mae'n ofynnol i'r ysgol lunio cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r argymhellion. Disgwylir y bydd uno'r ddwy ysgol fel y bwriedir yn creu cyfle i wella ymhellach dan adain un Corff Llywodraethu gydag un ethos a pholisïau i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

## RHAN C – Y CYNNIG

**C1: Beth sy'n cael ei gynnig?**

Mae'r Cyngor yn cynnig adeiladu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd yn Saltney. Bydd y prosiect hwn, a gyflwynir trwy Raglen Datblygu Cyfalaf y Cyngor, yn adeiladu un ysgol gynradd gymunedol gyda 315 o leoedd disgyblion a 30 o leoedd meithrin llawn amser ychwanegol.

**C2: Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?**

Bydd rhaglen o waith adeiladu cyfalaf yn hwyluso'r cynnig, wedi'i ariannu drwy Raglen Ddatblygu Gyfalaf y Cyngor. Bydd y prosiect yn adeiladu ysgol gynradd gymunedol newydd yn Saltney â lle i 315 o ddisgyblion yn ogystal â meithrinfa â lle i 30 o blant. Adeiladir yr ysgol newydd ar dir Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

**C3: Pa bryd gaiff y cynnig ei roi ar waith?**

Bwriedir cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ym mis Medi 2026 a chyfuno'r ddwy ohonynt mewn ysgol newydd dan yr un strwythur arwain a llywodraethu, ond ar y ddau o safleoedd presennol. Wedyn, bwriedir dechrau adeiladu'r ysgol gynradd newydd ym mis Ionawr 2027 gyda'r nod o'i hagor ym mis Medi 2028.

**C4: Cost y Cynnig**

Bydd angen buddsoddi tua £12,500,000 yn y prosiect a bydd y Cyngor yn ariannu hynny drwy fenthyca cyfalaf a sicrhau cyllid o gronfa Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Nod rhaglen ariannu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yw:

- gwella ansawdd adeiladau ysgolion
- sicrhau fod lleoedd i ddisgyblion ar gael i ateb y galw'n lleol
- lleihau lleoedd gwag
- lleihau costau gweithredu
- hyrwyddo cynaladwyedd.

Yn unol ag amodau cyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 65% o gyfanswm cost y prosiect a'r Cyngor yn ariannu'r 35% sy'n weddill drwy fenthyca cyfalaf.

**Costau Refeniw**

Dyrannwyd **£676,642** o refeniw i Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar gyfer 2025/26 gyda chyfran cyllideb fesul disgybl o **£5,413**.

Dyrannwyd **£6844,861** o refeniw i Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar gyfer 2025/26 gyda chyfran cyllideb fesul disgybl o **£5,231**.

Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl cynradd yn Sir y Fflint yw **£5,667**.

Un o'r dadleuon o blaid uno yw bod cyllid yn gyfartal i'r holl ddisgyblion a bod uno'r ddwy ysgol yn rhesymoli'r gost fesul disgybl yn yr ardal. Ariennir Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar sail yr un fformiwla ag ysgolion eraill os ydynt yn uno. Drwy fformiwla ariannu'r Cyngor, ariennir ysgolion yn ôl nifer y disgyblion a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysgu. Pe byddai'r ysgolion yn uno, byddai'r fformiwla yn cyfrifo un gyllideb a fyddai'n llai na'r gyllideb ar gyfer dwy ysgol ar wahân.

Cyfrifwyd costau refeniw'r ysgol newydd arfaethedig ar sail Fformiwla Cyllido Ysgolion 2025/26.

**Yn seiliedig ar niferoedd disgyblion presennol**

Amcangyfrif o'r Gyllideb a Ddyrennir ar sail Fformiwla Cyllido 2025/26: **£1,403,9911**

Amcangyfrif o'r Dyraniad fesul disgybl ar sail Fformiwla Cyllido 2025/26: **£4,900**

**Ar sail nifer y lleoedd yn yr ysgol newydd arfaethedig**

Amcangyfrif o'r nifer ar y gofrestr: 315 a 30 yn y Feithrinfa (cyfanswm o 330 yn gyfwerth â llawn amser)

Amcangyfrif o’r Gyllideb a Ddyrennir ar sail Fformiwla Cyllido 2025/26: **£1,554,417**

Amcangyfrif o’r Dyraniad fesul disgybl ar sail Fformiwla Cyllido 2025/26: **£4,710**

## C5: Dewisiadau a Ystyriwyd

| Dewis | Disgrifiad | Cryfderau | Gwendidau | Casgliad |
|---|---|---|---|---|
| **Dewis 1** | Peidio â newid dim - byddai strwythurau a ffurf yr ysgolion presennol yn aros yr un fath. | - Byddai’r sefyllfa bresennol yn parhau yn y naill ysgol a’r llall a’r strwythurau’n aros fel y maent.<br>- Ni fyddai unrhyw gost ychwanegol i’r awdurdod lleol. | - Byddai’r ddwy ysgol yn dal â nifer helaeth o leoedd gwag.<br>- Byddai’r gost o gynnal dwy ysgol gymunedol ar wahân yn dal yn anghynaladwy. Byddai’r safleoedd presennol a’r amgylcheddau dysgu’n dal o dan yr un cyfyngiadau. | Drwy beidio â newid dim, byddai’r ddwy ysgol yn dal â gormod o leoedd gwag ac yn talu costau gweithredu anghynaladwy oherwydd hynny. Hefyd, ni fyddai’r dewis hwn yn ymateb yn ddigonol i’r pryderon a nodwyd ynglŷn ag addasrwydd y cyfleusterau yn y naill ysgol a’r llall. |
| **Dewis 2** | Newid cyn lleied â phosib – adnewyddu’r ddwy ysgol yn unol ag argymhellion yr asesiadau diweddaraf o’u cyflwr a’u haddasrwydd, heb newid y strwythurau presennol. | - Angen llai o fuddsoddiad cyfalaf.<br>- Datrys problemau â chyflwr ac addasrwydd yr adeiladau.<br>- Byddai’r ysgolion yn aros ar eu safleoedd presennol a’r trefniadau staff yn aros yr un fath. | - Byddai’r ddwy ysgol yn dal â nifer helaeth o leoedd gwag.<br>- Byddai’r gost o gynnal dwy ysgol gymunedol ar wahân yn dal yn anghynaladwy. | Byddai’r dewis hwn yn datrys y problemau presennol ag adeiladau a chyfleusterau’r naill ysgol a’r llall ac yn eu galluogi i gadw eu hunaniaeth ar wahân. Ni fyddai, fodd bynnag, yn lleihau’r nifer helaeth o leoedd gwag na’r costau anghynaladwy o gynnal dwy ysgol gymunedol ar wahân yn yr un ardal. |
| **Dewis 3** | Uno’r ddwy ysgol ar eu safleoedd presennol a buddsoddi yn y cyfleusterau sydd yno eisoes. | - Angen llai o fuddsoddiad cyfalaf.<br>- Datrys problemau â chyflwr ac addasrwydd yr adeiladau.<br>- Gellid arbed costau staffio a rhannu adnoddau.<br>- Gellid rhannu arbenigedd rhwng y ddwy ysgol. | - Byddai’r ddwy ysgol yn dal â nifer helaeth o leoedd gwag.<br>- Byddai’r gost o gynnal dwy ysgol gymunedol ar wahân yn dal yn anghynaladwy. | Byddai’r dewis hwn yn datrys y problemau a nodwyd ynglŷn â chyflwr ac addasrwydd yr adeiladau a hefyd yn creu rhywfaint o arbedion drwy rannu adnoddau ac arbenigedd. Ni fyddai, fodd bynnag, yn lleihau’r nifer helaeth o leoedd gwag na’r costau anghynaladwy o gynnal |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | - Byddai'r ysgolion yn aros ar eu safleoedd presennol. | | dwy ysgol gymunedol ar wahân yn yr un ardal. |
| **Dewis 4** | Cau'r ddwy ysgol bresennol, eu huno a chodi adeilad newydd ar gyfer yr ysgol gyfunol ar safle presennol Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Byddai gan yr ysgol newydd le i 315 o ddisgyblion a 30 o blant (cyfwerth â llawn amser) yn y feithrinfa. | - Darparu digon o leoedd i fodloni anghenion yr ardal.<br>- Lleihau costau gweithredu'n sylweddol o gael un ysgol yn hytrach na dwy.<br>- Sefydlu ysgol newydd, gyfoes a gwell adnoddau i ddarparu gwell cyfleoedd i ddysgu.<br>- Rhoi cyfle i'r naill ysgol a'r llall ddod ynghyd a chyfuno holl brofiad ac arferion gorau'r ddwy ohonynt i wella'r canlyniadau dysgu i blant. | - Cau'r ddwy ysgol ar eu ffurfiau presennol a cholli Ysgol Gynradd Saltney Ferry.<br>- Posibilrwydd o golli gwaith wrth symud o ddwy ysgol i un.<br>- Byddai'n rhaid i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd deithio'n bellach i'r ysgol newydd ar safle Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. | Hwn yw'r dewis a ffefrir gan y byddai'n lleihau'r nifer helaeth o leoedd gwag yn ysgolion cynradd yr ardal, yn cwtogi ar gostau gweithredu a darparu amgylchedd dysgu cyfoes sy'n addas at y diben ac yn cynnig gwell cyfleoedd i'r holl blant ddysgu. |

Beth fydd y cynnig a ffefrir yn ei gyflawni?

Byddai bwrw ymlaen â'r dewis hwn yn lleihau'r nifer helaeth o leoedd gwag yn ysgolion cynradd yr ardal, yn cwtogi ar gostau gweithredu a darparu amgylchedd dysgu cyfoes sy'n addas at y diben ac yn cynnig gwell cyfleoedd i'r holl blant ddysgu.

## RHAN D – EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

### D1: Effaith ar yr Amgylchedd Lleol

Nid yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys unrhyw ddatblygiadau mawr o dai yn ardal Saltney ar hyn o bryd.

Asesir effaith y prosiect cyfalaf hwn ar draffig yn ystod proses y cais cynllunio.

Mae yno lwybr diogel i gerdded o amgylch Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a rhwng Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, a bwriedir ystyried ffyrdd o wella'r llwybr hwnnw wrth ddatblygu'r cynllun arfaethedig drwy'r drefn gynllunio.

Bydd llwybrau diogel i ysgolion a threfniadau teithio llesol yn cael eu hystyried mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Adran Gynllunio a Gwasanaethau Stryd.   Rhoddir strategaeth gydlynol ar waith ar gyfer teithio a chynllun teithio a fydd yn annog pobl i deithio i'r ysgol mewn ffyrdd eco-gyfeillgar.

Byddai adeilad newydd sy'n cyflawni'r safon Gweithredu'n Ddi-garbon Net yn dileu'r allyriadau hynny o ôl troed carbon y Cyngor drwy ddefnyddio systemau ynni adnewyddadwy a dulliau naturiol o awyru a chysgodi.

### D2: Effaith ar Dderbyniadau

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod derbyn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a bydd yn dal i asesu ceisiadau am leoedd yn unol â Pholisi Derbyn y Cyngor.

Bydd yno ddigon o leoedd ar gael i'r disgyblion hynny sydd ar gofrestri Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood drosglwyddo i'r ysgol newydd.

Yn unol â pholisi derbyn Cyngor Sir y Fflint, gall rhieni plant sydd heb gofrestru eto fynegi dewis o blaid unrhyw ysgol, ond nid oes sicrwydd y derbynnir eu plant i'r ysgol a ddewisant. Byddai'r cynnig hwn yn creu ysgol ag 1.5 o ddosbarthiadau mynediad a phennid cyfyngiad o ddim mwy na 30 o ddisgyblion yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaenol a 30 neu lai yn nosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2.

Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y polisi, a derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â dewisiadau rhieni, ar yr amod fod lleoedd ar gael.  Os yw ysgol yn derbyn mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, bydd dewis rhieni yn dal yn ystyriaeth ond bydd meini prawf y Cyngor yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu.

Mae rhagor o wybodaeth am Bolisi Derbyniadau Ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx.

### D3: Effaith ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol

Dan bolisi'r Cyngor, darperir cludiant rhwng y cartref a'r ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir neu fwy o'u hysgol agosaf, neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwn ac ni fydd y llwybrau sydd ar gael i gerdded rhwng y cartref a'r ysgol yn newid, oni bai eu bod eisoes wedi'u gwella.  Yn ôl y dadansoddiad diweddaraf, ni fyddai unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hyn o bryd yn gymwys i gael cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, pe gweithredid y cynnig yn llwyddiannus.

## D4: Effaith ar Drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol ar gyfer trosglwyddo i addysg uwchradd.

## D5: Effaith ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ni fydd unrhyw newid yn y ddarpariaeth bresennol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Bydd yno well darpariaeth i ddisgyblion yn yr ysgol newydd oherwydd y cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf.

## D6: Effaith ar Drefniadau Llywodraethu

Ar ôl cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a'u huno, sefydlir corff llywodraethu newydd. Y corff llywodraethu hwnnw a fyddai'n goruchwylio gweithrediad yr ysgol gyfunol ar y safleoedd presennol i ddechrau, cyn i'r ysgol symud i'r safle newydd arfaethedig.

## D7: Effaith ar Staffio

Ni fyddai uno'r ysgolion fel y bwriedir yn cael fawr ddim effaith ar y trefniadau staffio i ddechrau, gan y byddai'r ysgol gyfunol newydd yn dal i weithredu ar y safleoedd presennol cyn symud i'r safle newydd. Byddai corff llywodraethu'r ysgol newydd, ar y cyd â swyddog o adran Adnoddau Dynol Cyngor Sir y Fflint, yn penodi Pennaeth i arwain yr ysgol yn y cyfnod cychwynnol ar y safleoedd presennol. Yn dilyn hynny, bydd y corff llywodraethu, y Pennaeth a'r swyddog Adnoddau Dynol yn sefydlu strwythur staffio ar gyfer symud i'r ysgol newydd. Bydd yr hyn a gynigir yn creu mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff drwy rannu arferion gorau a chynlluniau datblygu proffesiynol, ac o bosib yn cynnig gwell cyfleoedd i bobl symud ymlaen yn eu gyrfaoedd gan y bydd mwy o swyddi ar gyfer rheolwyr canol ac uwch-reolwyr mewn ysgol fwy.

## D8: Effaith ar Ysgolion Eraill

Dyluniwyd yr ysgol newydd fel bod digon o le ar gyfer y disgyblion ar gofrestri Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood a'r niferoedd a ragwelir yn y dyfodol. Cydnabyddir, serch hynny, fod yno risg y bydd rhai disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal, yn enwedig y ddwy o ysgolion agosaf, sef Ysgol Gynradd Brychdyn ac Ysgol Gynradd Lache. Hefyd, gan y cyflwynir y cynnig hwn ar yr un pryd â chynnig arall i gal Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony, derbynnir y gallai rhai o'r plant sy'n mynychu'r ysgol honno ddewis trosglwyddo i'r ysgol gynradd newydd yn Saltney pe byddai'r ysgol yn cau.

## D9: Risgiau'r Prosiect

Rhestrir isod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a'r ffactorau sy'n lliniaru arnynt:

| **Risgiau'r Prosiect** | |
|---|---|
| **Risgiau** | **Camau Lliniaru** |
| Gallai methu â chael caniatâd cynllunio effeithio ar gyflawni'r prosiect | Bydd angen caniatâd cynllunio i adeiladu'r ysgol newydd. Bydd yr ysgol yn dal i weithredu ar y safleoedd presennol nes ceir caniatâd cynllunio. |
| Digon o gyllid i gyflawni'r prosiect | Gwnaed asesiad masnachol o gwmpas arfaethedig y prosiect a'r dyluniad amlinellol, a bernir ei fod yn fforddiadwy o fewn terfynau |

| | |
|---|---|
| | rhaglen gyfalaf Cyngor Sir y Fflint. Adolygir fforddiadwyedd y prosiect yn barhaus. Mae'r Cyngor yn monitro costau'r prosiect yn barhaus i sicrhau eu bod o fewn y gyllideb. Bydd unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau yn arwain at oedi'r prosiect er mwyn adolygu'r rhesymau a chanfod datrysiadau posib. |
| Y galw am leoedd yn lleihau | Mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd galw cyson yn ardal Saltney ac nid oes unrhyw ddatblygiadau mawr o dai yn yr arfaeth. Cynllunnir yr ysgol newydd fel y gall ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol a chynnydd yn nifer y dysgwyr yn yr ardal. |
| Cau neu fethu â chau Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony, Saltney | Bwriedir cau Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony erbyn mis Medi 2026 ac felly bydd effaith cau'r ysgol neu beidio'n hysbys wrth fynd ati i ddylunio'r ysgol gyfunol newyd a bydd modd rhoi ystyriaeth drylwyr i hynny. |
| Mae'n bosibl na fydd Cabinet Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi a chymeradwyo'r cynnig | Dal i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cabinet ynglŷn â chynnydd y Cynnig a'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd Strategol drwy'r drefn ddemocrataidd. |

## D10: Asesiad o Effaith Integredig

Gwnaed asesiad o effaith integredig ar gyfer y cynnig hwn a gellir ei weld ar wefan y Cyngor.

## D11: Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg

Ni fydd y cynnig hwn yn ategu amcanion y Cyngor fel y'u pennir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ers 2020, gan gynnwys gwario £20 miliwn ar un ysgol gynradd, rhoi estyniadau ar un arall ac adnewyddu un arall eto. Yn ogystal â hynny, mae cyllid wedi darparu nifer o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg i hwyluso mynediad at y Gymraeg i blant ifanc.

Er bod y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd i ddarparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg.

## D12: Effaith ar yr Adeiladau

Os gweithredir y cynigion a gyflwynir yn y ddogfen hon, bydd safle presennol Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn segur. Gan mai trefn ymgynghori gychwynnol yw hon, ni phenderfynwyd eto ynglŷn â dyfodol y safleoedd a'r adeiladau. Rheolir y materion hynny yn unol â Pholisi'r Cyngor ynghylch Tir ac Adeiladau Dros Ben.

## D13: Trefniadau yn y Cyfamser

Bydd yr ysgol yn aros ar y safleoedd presennol nes bydd yr ysgol newydd yn barod. Penodir Pennaeth a chorff llywodraethu newydd i oruchwylio arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol newydd yn y cyfamser. Ni fydd unrhyw effaith uniongyrchol ar addysg a dysgu yn ystod y cyfnod hwn.